OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 260

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

RHAN 5

Yr hawl i gael amser i ffwrdd

Absenoldeb oherwydd profedigaeth

41.—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth â thâl, a thâl profedigaeth amaethyddol yn unol ag erthygl 43, o dan amgylchiadau pan fo'r brofedigaeth yn ymwneud â pherson yng Nghategori A, Categori B neu Gategori C.

(2) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori A yw

(a) plentyn.

(3) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori B yw—

(a) rhiant i'r gweithiwr amaethyddol,

(b) priod neu bartner sifil y gweithiwr amaethyddol, neu

(c) rhywun y mae'r gweithiwr amaethyddol yn byw gydag ef fel pe baent yn briod (heb fod yn gyfreithiol briod) neu rywun y mae'r gweithiwr amaethyddol yn byw gydag ef fel pe baent mewn partneriaeth sifil (heb fod mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol).

(4) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori C yw—

(a) brawd neu chwaer i'r gweithiwr amaethyddol,

(b) nain neu daid i'r gweithiwr amaethyddol, neu

(c) ŵyr neu wyres i'r gweithiwr amaethyddol.

(5) At ddibenion paragraff (1) mae absenoldeb oherwydd profedigaeth yn ychwanegol at unrhyw hawliau eraill i gael absenoldeb o dan y Gorchymyn hwn.